PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

Rhifyn digidol | Rhif 428 | Ebrill 2020










# Y LAWRGLO



Er gwaetha'r argyfwng coronafeirws, mae Côr ABC yn dal i ganu drwy gynnal ymarferion rhithwir. Drwy gyfrwng platfform Zoom, mae'r aelodau'n dod at ei gilydd bob nos Iau, yn ôl yr arfer, i ganu dan gyfarwyddyd eu cyfarwyddwr cerdd, Gwennan Williams. Mae'n ffordd wych o gadw mewn cysylltiad, codi calon, a chadw'r lleisiau'n iach - ac mae'n sicr yn well na pheidio canu o gwbl!




A dyma un o'r pethau fu y Golygydd yn ei wneud! Picio i mewn i 'Fore coffi' gynhaliwyd trwy Zoom - cyfle i ddysgwyr yn yr Andes, Patagonia a gweddill Ariannin ymarfer sgiliau llafar Cymraeg. Mynychodd cyfeillion o'r Andes, Mendoza, Porth Madryn a Chymru y sesiwn drefnwyd gan Sal Nicholls – yr athrawes o Forgannwg sydd allan ar hyn o bryd dan y Cynllun Dysgu Cymraeg. Gobeithir cynnal un wythnosol.




Arwydd lliwgar plant Gellinebwen, Capel Madog




Gwen, Nel y ci a Sion gyda'u baner - diolch i Mari am dynnu'r llun.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Mawrth 2020

£25 (Rhif 168 ) Jane Jones, 107 Maesceinion, Waunfawr
£15 (Rhif 290 ) Susan Williams, 38 Heol Aberwennol, Y Borth
£10 (Rhif 277 ) Eirian Morgan, 9 Maes Seilo, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher, Mawrth 18

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar e-bost **m.e.bebb@talk21.com**

**Rhoddion**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Cymuned Trefeurig £250
Cyngor Cymuned y Borth £25

**Annwyl Gyd-ddarllenwyr**,
Pan own i'n blentyn Nyrs Hannah Roberts oedd Nyrs yr Ardal yma. Dw i'n ei chofio hi'n dda ond ychydig o atgofion penodol sydd gen i ohoni. Fe hoffwn yn fawr gael rhagor o wybodaeth neu hanesion neu hyd yn oed luniau ohoni i gael adeiladu darlun mwy cyflawn. Bu'n gwasanaethu trigolion yr ardal am flynyddoedd lawer. Os oes gan rywun unrhywbeth – sdim ots pa mor fach – tybed a fyddech chi'n fodlon cysylltu â fi drwy fy e.bost – llinosdafis@gmail.com.

Yr eiddoch,
Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre
SY24 5AB
(01970) 828262

## Diolch i holl weithwyr y GIG a'r holl weithwyr allweddol



## Gair gan y Cadeirydd

Oherwydd y sefyllfa a gododd o ganlyniad i haint Covid-19, ni allwyd cynhyrchu fersiwn print o'r Tincer y mis hwn. Mae'r Lolfa ar gau ar hyn o bryd ynghyd â Siop y Pethe a Siop Inc. Hefyd mae'n amheus iawn a fyddid wedi gallu cyfiawnhau dosbarthu o dŷ i dŷ, hyd yn oed gyda'r gofal mwyaf. Felly, penderfynodd Pwyllgor y Tincer y dylid mynd ymlaen i gynhyrchu rhifyn electronig, gan fod y rhan helaethaf o'r deunydd yn cyrraedd y Golygydd yn electronig beth bynnag, ac wedyn yn cael ei drosglwyddo'n electronig i'r dylunydd.

Dau rifyn arall sydd o fewn y flwyddyn gyhoeddi, sef rhifynnau Mai a Mehefin. Ni wyddom pryd y gallwn ddechrau argraffu rhifynnau eto; amser a ddengys. Sut bynnag, ni fydd tâl am y rhifyn hwn. Yn achos y rhai sydd wedi tanysgrifio i'r Tincer am y flwyddyn, fe allwn godi llai am y tanysgrifiad nesaf i wneud i fyny am unrhyw rifynnau a gollwyd.

Rydym yn awyddus i gyhoeddi rhifyn ym mis Mai hefyd, felly cofiwch anfon unrhyw ddeunydd sydd gennych i'r Golygydd. Bydd y rhifynnau electronig yn ymddangos ar www.trefeurig.org a Bro.360.cymru/papurau-bro

Gobeithio y mwynhewch chi'r rhifyn hwn. Cymerwch ofal a chadwch yn ddiogel!

**Richard Owen**

## Gair gan y Golygydd

Fel yr eglura y Cadeirydd rhifyn digidol yn unig sydd y mis yma. Diolch i bawb sydd wedi gyrru deunydd dan yr amgylchiadau presennol. Ar hyn o bryd mae y Lolfa yn aros ar gau hyd 27 Ebrill ar y cynharaf. Dyddiad cau rhifyn Mai o'r Tincer yw - **deunydd i law: MAI 8**; **dyddiad cyhoeddi: MAI 20**. Penderfynir erbyn hynny ar ba ffurf y bydd y rhifyn. Danfonwch eich newyddion a hanes fel arfer i'ch gohebydd lleol neu i **ytincer@gmail.com**

Yn naturiol ni fydd digwyddiadau yn cael eu cynnal yn y cyfnod yma – beth am i'r rhai ohonoch sydd yn segur yn y tŷ fynd ati i lunio erthygl yn sôn am y profiad o hunan-ynysu; lwyddoch chi i wneud pryd diddorol o bethau oedd yng nghefn y cwpwrdd? Oes rhywun o'r teulu dramor yn ceisio dygymod â'r sefyllfa- ydych chi wedi dechrau ysgrifennu cerddi neu ysgrifau neu beth am luniau o weithgaredd sydd yn digwydd i ddifyrru'r amser yn y cyfyngiadau presennol. Cadwch yn saff i gyd.

**Ceris Gruffudd / Golygydd**

Englyn welwyd ar Trydar – diolch i'r awdur am ganiatâd i'w chyhoeddi

Y wys yw ymynysu, a dala
dwylath rhwng ein gily';
atal lluest mewn gwesty,
a gwahardd mynd at Mam-gu.
**Jim Parc Nest**

**Eglwys St. Pedr, Elerch**
Oherwydd yr argyfwng presennol ni chynhelir Caws, Gwin a Chân Eglwys Elerch eleni ar nos Wener 26 Mehefin. Fe'i gohiriwyd tan fis Mehefin 2021.

**Radio a theledu**
Bu newidiadau yn narlledu rhaglenni radio a theledu i addasu ar gyfer y sefyllfa.

S4C
Wrth i ysgolion gau eu drysau lansiodd S4C Ysgol Cyw sef platfform ar-lein i gefnogi rhieni a chynnig adnoddau addysgol a hwyliog o dan y brand plant poblogaidd - Cyw.

Ddydd Llun 31 Mawrth dechreuwyd darlledu datganiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn fyw am 12.30 bob dydd.

Mae S4C a Telesgop, y cwmni sy'n cynhyrchu Ffermio, wedi creu cymuned o'r enw, Fforwm Ffermio ar dudalen Facebook Ffermio - fforwm preifat lle gall ffermwyr gynnig cefnogaeth a chyngor i'w gilydd, rhannu arfer gorau a lluniau.

Cyn bo hir bydd Cwpwrdd Epig Chris yn rhan o'r amserlen yn cynnig awgrymiadau coginio gyda chynhwysion o gefn y cwpwrdd i fwydo teuluoedd wrth iddynt hunan-ynysu.

FFIT Cymru – yn cynnig fideos ffitrwydd ac awgrymiadau y gall pawb gymryd rhan ynddynt o'u cartrefi gan edrych ar iechyd meddwl a ffitrwydd gartref

Mae y ddwy opera sebon Pobol y Cwm a Rownd a Rownd yn cael eu torri i lawr i ddwy bennod yr  wythnos er mwyn cadw'r sebonau poblogaidd hyn yn rhan annatod o'r amserlen cyhyd ag y bo modd. Bydd rhain i'w gweld bob nos Fawrth a nos Iau am 8.00.

Darlledir Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol dan ofal y Parchedig John Gwilym Jones gyda'r emynau'n cael eu dewis o archif Dechrau Canu Dechrau Canmol pob Sul ers dydd Sul 29 Mawrth.

Bydd hefyd darllediad o Dechrau Canu Dechrau Canmol cyn hynny am 10.30 ar foreau Sul.

# 30 MLYNEDD YN OL



Tîm pŵl Rhydypennau – Owain, Garmon, Dylan, Rhydwen a'r capten Gwion yn dal y darian. Llun: Arvid Parry Jones (O *Dincer* Ebrill 1990)



Tîm pêl-droed o dan 15 Rhydypennau wedi iddynt ennill cwpan yr Urdd gyda Dylan Petche y capten yn dal y cwpan. Llun: Arvid Parry Jones (O *Dincer* Ebrill 1990)

**Radio Cymru**
Mae rhai newidiadau ar y radio hefyd
Caiff y Post Cyntaf  ei ymestyn hyd 9.00 pob bore

**Ar fore Sadwrn ceir**

| | |
|---|---|
| 5.30 | Richard Rees |
| 7.00 | Galwad Cynnar |
| 8.00 | Post Cyntaf |
| 8.30 | Ar y Marc |
| 9.00 | Tudur Owen |

**Ac ar fore Sul**

| | |
|---|---|
| 5.30 | Linda Griffiths |
| 7.00 | Troi'r Tir Terwyn Davies |
| 7.30 | Caniadaeth y Cysegr |
| 8.00 | Dewi Llwyd |
| 10.00 | Swyn y Sul Elin Manahan Thomas |
| 12.00 | Oedfa |
| 12.30 | Bwrw golwg |
| 13.00 | Beti a'i phobol |

# Y BORTH

**Siopau lleol yn cynnig gwasanaeth pwysig**

Mae dwy o siopau'r Borth wedi camu i'r adwy yn dilyn cyflwyno rheolau llym ar ymbellhau cymdeithasol a hunan-ynysu.

Er mwyn sicrhau bod pobl oedrannus a bregus yn gallu cael eu siopa yn ystod y cyfnod hwn, mae siop y Premier Family Stores ar naill ben y pentref a siop Nisa Co-op y pen arall yn cynnig gwasanaeth cludo rhad ac am ddim.

Mae nifer o bobl leol wedi gwirfoddoli i helpu gyda'r cludo ond hyd yma y perchnogion a'r staff sydd wedi bod yn mynd â nwyddau at bobl yn y Borth, Ynys-las, Dôl-y-bont a Llandre.

"Mae'n bwysig bod y rhai sy'n methu gadael eu tai, oherwydd eu bod yn oedrannus neu fod ganddyn nhw gyflwr iechyd tymor hir, dal yn gallu cael bwyd a nwyddau i'r tŷ. Rydyn ni'n gymuned agos ac mae pawb yn tynnu at ei gilydd i gefnogi ei gilydd," meddai Derek Edwards, perchennog siop Nisa sydd ar agor bob diwrnod o 8yb tan 6.30yh.

Gall unrhyw un sydd angen defnyddio'r gwasanaeth cludo ffonio Nisa ar 01970 871218 i roi archeb a hynny rhwng 9yb a hanner dydd os yn bosib. Bydd y nwyddau fel arfer yn cyrraedd yr un diwrnod a gellir talu naill ai gyda siec neu arian parod.

Mae'r Nisa a'r Premier wedi cyflwyno mesurau diheintio yn eu siopau ac yn gofyn i gwsmeriaid fynd i mewn yn unigol gan gadw pellter o 2m oddi wrth y staff a siopwyr eraill.

Dywedodd perchennog Premier Family Stores, Ian Tomkewycz: "Yn ogystal â delifro siopa at bobl, mae nifer hefyd wedi penderfynu defnyddio'u siop leol yn ystod y cyfnod hwn yn hytrach na mynd i'r archfarchnadoedd mwy yn y dre. Er nad oes ymwelwyr o gwmpas, ry'n ni'n cadw'n brysur ac yn mynd at siopa at hyd at 25 o bobl bob dydd."

Mae'r gwasanaeth wedi cael croeso twymgalon yn lleol ac roedd arwydd clir o'r gwerthfawrogiad hwnnw i'w gweld ar wal allanol y siop. Roedd cwsmer di-enw wedi gosod poster yno yn diolch i'r perchnogion 'am aros ar agor ar ein cyfer'.

Mae Premier Family Stores ar agor o 8yb tan 8yh a gellid ffonio i archebu ar 871543, gan dalu dros y ffôn gyda cherdyn.

**Cymeradwyo'r NHS**

Roedd bloeddio brwd a chymeradwyaeth wresog i'w chlywed yn y pentre' am 8 o'r gloch nos Iau 26 Mawrth wrth i drigolion lleol ddod allan o'u tai i guro dwylo fel arwydd o ddiolch i weithwyr y gwasanaeth iechyd. Ymgyrch ar hyd a lled Prydain yw 'Cymeradwyo'n Gofalwyr' ac mae'n bosib y bydd yn digwydd bob nos Iau am 8yh yn ystod cyfnod y cloi lawr mawr.

**Canolfan Deulu'r Borth**

Diolch i fudiad Bwyd Dros Ben Aberystwyth am eu rhodd o 100 o dorthau i'r Ganolfan Deulu ar gyfer eu dosrannu yn y gymuned, a diolch hefyd i bawb fu'n cynorthwyo'n lleol gyda'r gwaith o ddosbarthu'r bara.

Mewn neges at ddefnyddwyr y Ganolfan Deulu, dywedodd y cydlynydd Helen Williams bod yr adeilad ynghau ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau presennol ond bod eu gwaith yn parhau drwy grwpiau Facebook a What's App yn cynnig cyngor yn ogystal â gweithgareddau i blant.

Mae'r Ganolfan Deulu hefyd yn cydlynu cynllun cefnogi cymunedol Wardeniaid y Borth. Os nad ydych yn gwybod pwy yw eich warden lleol, cysylltwch gyda Helen Williams ar 07896616857.

Ar nodyn fwy positif, mae'r Ganolfan Deulu wedi derbyn cyllid i sefydlu Sied Dynion / Men's Shed fydd yn cynnig cefnogaeth a chyfeillgarwch cymunedol.



**Y Lleng Brydeinig**

Criw o gadetiaid o Sgwadron 560 (Aberystwyth, Ardwyn a'r Cylch) oedd y gwesteion gwadd yng nghyfarfod diwethaf o gangen Lleng Brydeinig y Borth. Bu'r cadetiaid yn siarad am eu gwaith yn yr awyrlu ac mewn digwyddiadau cymunedol ar hyd a lled Ceredigion. Yn y llun gyda'r cadetiaid y mae cludwr baner y gangen Yvette Elis Clarke, cadeirydd y gangen y Cynghorydd Ray Quant MBE, a Llywydd y gangen a'r rhanbarth Mark Williams ynghyd ag aelodau lleol.

Edrychwn ymlaen at yr amser pan fydd modd i'r grŵp ddechrau cwrdd.

**Babi Newydd**

Yn Ysbyty Cyffredinol Bron-glais yn oriau man fore Iau 2 Ebrill, ganed mab i Ieuan Davies a Bethan Hartill o'r Borth. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu a chroeso arbennig i'r pentre' i Noah bach.

Grŵp Gweithredu Dementia y Borth

Cyfarfu Grŵp Gweithredu Dementia y Borth yn y neuadd goffa ar 5 Mawrth dan gadeiryddiaeth Mark Williams. Clywodd






Derek Edwards, perchennog Nisa, ac Ian Tomkewycz, perchennog Borth Premier Family Stores)

y cyfarfod gan Marcia Vale, cydlynydd cymunedol Cymdeithas Alzheimer, a fu'n rhoi cyngor i'r grŵp ar sut i fwrw mlaen gyda'u cynllun i sicrhau bod y Borth yn gymunedol dementia gyfeillgar. Pan ddaw'r cyfyngiadau coronafeirws i ben, bydd y grwp yn trefnu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am ddementia. Am fanylion pellach, cysyllter â Mark Williams 871078.

**Gwellhad Buan**

Dymunwn wellhad buan i Margaret Griffiths yn dilyn salwch diweddar. Mae Margaret yn aelod diwyd o'r pwyllgor apêl leol i godi arian ar gyfer Eisteddfod Ceredigion a Sefydliad y Menywod. Mae hefyd yn gofalu am yr arlwyo yng nghlwb golff y Borth ac Ynys-las (sydd wrth gwrs ynghau ar hyn o bryd yn unol â'r canllawiau coronafeirws).

**Garddio**

Mae wedi bod yn gyfnod o brysurdeb mawr yng ngerddi'r pentref, nid yn unig yn sgîl dyfodiad y gwanwyn ond am fod hunan-ynysu yn golygu bod pobl yn treulio mwy o amser gartref. Un o'r nifer sydd wedi bod wrthi'n twtio, yn tendio ac yn plannu yw Jenny Williamson. Ymhlith yr hadau mae wedi'u plannu'n ddiweddar y mae hadau tomatos ceirios coch. Cyngor Jenny yw i blannu dau hedyn ymhob potyn mewn compost o ansawdd da; ac yna eu cadw mewn ystafell gymharol oer yn y tŷ ag iddi olau da, gan sicrhau bod ganddynt ddigon o ddŵr. Fe ddylai'r eginblanhigion ymddangos ar ôl tua 10 diwrnod a dylid eu cadw yn y tŷ nes i'r tywydd gynhesu cyn eu plannu mewn potiau mwy y tu allan. Eu gosod yn erbyn wal sy'n wynebu'r de sydd orau. Os oes unrhyw arddwyr lleol eraill sydd am rannu cyngor, e-bostiwch estherprytherch@gmail.com.



# Hunan-ynysu yn yr Andes



Bu'n freuddwyd i mi ers blynyddoedd bellach i weithio yn y Wladfa a theimlaf yn ffodus iawn i gael swydd fel athrawes yn Ysgol y Cwm, Trevelin. Roedd pawb yn groesawgar iawn ac fe wnes i deimlo'n rhan o'r gymuned yn syth. Roedd cerdded i mewn i'r ysgol am y tro cyntaf yn arbennig a gweld y ddraig goch yn chwifio uwch y dre yn deimlad afreal. Ysgol ddwyeithog yw Ysgol y Cwm- Sbaeneg a Cymraeg ac yn cael eu ddysgu ochr arall y byd- anghredadwy.

Ar ddiwrnod cynta'r ysgol, cafwyd seremoni Acto i groesawu'r flwyddyn newydd. Wedi'r seremoni ddigwydd, cafodd pob aelod o staff ei gyflwyno... trwy neidio allan o focs enfawr! Dwi'n dysgu blynyddoedd dau a phedwar yn yr ysgol yn ogystal â dysgu athrawon ac oedolion eraill.

Fe ddathlodd yr ysgol ei phen-blwydd yn bedair oed dechrau'r mis. Cafwyd ddiwrnod o ddathlu a mwynhau yn yr haul. Erbyn hyn, mae bron cant o blant yn derbyn addysg Sbaeneg a Chymraeg. Mae'n anhygoel gweld pa mor bell mae'r ysgol wedi dod mewn cyn lleied o amser.

Erbyn hyn, mae effeithiau Corona wedi'n cyrraedd yma yn yr Ariannin. Rydym ar wythnos tri o 'lockdown', dim bysus yn rhedeg, tai bwyta ar gau a drysau'r ysgol wedi'i chloi. Er gweithaf hyn, dwi'n dal i weithio o adref ac yn anfon fideos o wersi i'r plant. Mae nawr gyda fi sianel YouTube lle dwi'n llwytho'r holl fideos. Mae'n her newydd ddysgu fel hyn ond roeddwn yn barod i gael fy herio ac mae'n rhaid gwneud beth fedrwn.

Mae'n anodd iawn bod ben draw'r byd ar adeg mor ansicr. Does neb chwaith yn gwybod pryd ddaw hyn i ben. Dwi'n croesi bysedd y byddaf nôl yn y dosbarth yn fuan. Edrychwch ar ôl eich gilydd.

**Gwenno Morris**



Diolch i Gwenno am yr adroddiad - mae talaith Chubut lle mae'r Cymry yn un o dair talaith yn Ariannin lle nad yw y feirws wedi cyrraedd eto er fod y trigolion mewn lawrglo a'r ysbytai yn barod rhag ofn. Y ddwy dalaith arall yw Catamarca a Formosa.

# LLANDRE

**Marwolaeth**

A'r Tincer yn mynd i'r wasg daeth y newydd am farwolaeth Marian Jenkins, Eryl ar ôl salwch hir. Cydymdeimlwn â Eddie a gyda Hywel Sion a Rhiannon a'r teulu.

**Cerddorol**

Llongyfarchiadau i Heddwyn Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, ar basio ei arholiad gradd pump ar y sacsoffon yn ddiweddar.

**Pobol Llandre a Dol-y-bont**

Sefydlwyd y grŵp yma ar Facebook yn blatfform i aelodau'r gymdeithas yn Llandre a Dôl-y-bont i holi am, neu i gynnig cymorth a chefnogaeth i'w gilydd y ystod y cyfnod ansicr yma.

# PENRHYN-COCH

**Horeb**

Yn unol â gwybodaeth gafwyd gan Lywodraeth Cymru trwy Undeb y Bedyddwyr ni chynhelir oedfaon yn Horeb ar hyn o bryd – fel addoldai eraill yr ardal. Dosberthir myfyrdod wythnosol i aelodau. Mae nifer o oedfaon ar gael ar Facebook pe baech am ymuno a hefyd un ar S4C am 11.00 ar fore Sul a Radio Cymru rhwng 12.00 a 12.30.

**Grŵp Gofal Trefeurig**

Sefydlwyd Grŵp Gofal Trefeurig Care ar Facebook gan y Cynghorydd Sir, Dai Mason gyda chymorth Cadeirydd Cyngor Cymdeithas Trefeurig – Delyth James. Rhannwyd y plwyf yn ardaloedd a stadau tai ac mae yna enwau ym mhob un sydd ar gael i gadw golwg ar bobl oedrannus / bregus. Dosbarthwyd taflenni gyda enwau y rhai sydd ar gael i gynorthwyo. Diolch i'r trefnwyr a'r gwirfoddolwyr am gydweithio fel hyn. Os ydych heb gael taflen neu am gynorthwyo – a heb fynediad i Facebook cysylltwch gyda'r Cynghorydd Dai Mason dai.mason@ceredigion.gov.uk 01970828128 07989303614 Gweler mwy isod.

**Cefnogi'r NHS**

Fel ardaloedd eraill trwy Gymru a thu hwnt bu trigolion Penrhyn-coch yn clapio dros yr NHS a gofalwyr ar nosweithiau Iau am 8.00. Clywyd canu Calon lân yng Nger-y-llan ac yn ôl Meriel Ralphs ar Facebook : Ar noson glir, roedd modd clywed pawb yn mhen ucha'r cwm yn clapio....:o Llwyn Prysg clywyd dyrnu sospannau o ben draw'r cwm yn Nhroedrhiwseiri a lawr yr hewl yn Salem. Yr unig adeg arall o'r flwyddyn clywir hyn rhan amlaf yw am 12 o'r gloch y bore ar ddiwrnod cynta'r flwyddyn newydd. Roedd y defaid, yr ŵyn bach a'r cathod yn diflannu i bob cyfeiriad gyda'r holl halibalw. Gwelir hefyd y lluniau ar t.

**Bysiau**

Aildrefnwyd taflen amser y bysiau – mae i'w gweld ar wefan Trefeurig. Tri bws y dydd sydd ar hyn o bryd i'r dref – 8.30, 13.25 a 15.25 a phedwar nol – 13.00, 14.00 a 15.00 a 17.45. Maent i gyd yn cychwyn o Morrisons (12.55, 13.50, 14.55 a 17.30) gan alw yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Mae yr olaf – ar ol gollwng ym Mhenrhyn-coch yn mynd ymlaen i Gapel Bangor a Phonterwyd. Gellir dilyn manylion y bysiau hefyd ar @ MidWalesTravel neu 01970 828288.

**Cerddorol**

Llongyfarchiadau i Betsan Downes, Glanrafon, sydd wedi cael clod (128) yn ei arholiad piano gradd 5.



Be well i godi calon na chat efo ffrind gora a thrafod sticyrs ffwtbol – Caio a Twm yn mwynhau.



A dyma Sion ac Ywain yn cymdeithasu trwy Facetime!



Cylch Meithrin Trefeurig yn dathlu Diwrnod y Llyfr

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Manon a John, Cwm Pennant, ar enedigaeth merch fach – Efa Heledd Evans ar Chwefror 8 – chwaer fach i Elen; wyres i Wendy ac Eirian Reynolds.


**Parti yn y Parc**

Penderfynwyd peidio cynnal Parti yn y Parc eleni oherwydd ansicrwydd pryd fydd pethau nôl i normalrwydd. Mae'r trefnwyr yn gobeithio y bydd y cyhoedd yn eu cefnogi y flwyddyn nesaf i gadw y Parc.

**Y Parchg David Everton Baxter Francis (1945-2020)**

Cyfeiriwyd y mis diwethaf at farwolaeth Y Parchg David E. Baxter Francis a fu'n ficer Elerch a Phenrhyn-coch rhwng 1985 a 1993. Fe'i ganwyd yng Nghaersallog (Salisbury) yn 1945, ac fe'i addysgwyd yn Cliff College, Calver yn Swydd Derby a Choleg y Wesleaid, ym Mryste. Bu'n gweithio am gyfnod yn Llyfgell St. Deiniol, Penarlâg, cyn ei ordeinio yn ddiacon yn yr Eglwys yng Nhymru yn 1977. Bu'n gurad ym mhlwyfi Llangyfelach a Llansamlet rhwng 1977 a 1980, cyn ei benodiad yn ficer Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llanarmon Mynydd Mawr, Pennant, Hirnant a Llangynog. Apwyntiwyd ef yn ficer Elerch a Phenrhyn-coch yn 1985, gan wasanaethu yno hyd 1993, pan adawodd i ofalu am blwyfi cyfagos Y Borth, Eglwys-fach a Llangynfelyn. Ymddeolodd i Gegidfa, Powys gyda'i wraig Dorothy. Roedd ganddynt dair o ferched.

Bu farw ar 3 Mawrth 2020, a chynhaliwyd ei angladd yn Eglwys St. Oswallt, Croesoswallt ar 12 Mawrth, ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanidloes ar 13 Mawrth.
REH



**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Lynwen Huxtable a'r teulu, Y Ddôl Fach, ar farwolaeth tad Lynwen – Gwyn Hughes o Bontrhydfendigaid ar Fawrth 3.

**Dyma bwt gan y Cynghorydd Dai Mason**

Gyfeillion,

Wel dyma ni yn wynebu un o'r cyfnodau mwya' pryderus yn ein hanes yn y plwy'.

Mae'r byd mawr bellach yn effeithio ar ein ffordd ni o fyw yma ym mhob cornel o Drefeurig - rhywbeth na fydde'r un ohonom wedi rhagweld yn digwydd.

Ond, mae'n rhaid i ni, bob un, gydio yn dynn mewn rhyw ffydd a gobaith i wynebu y dyfodol, ac i ymladd y gelyn sy'n cuddio yn y tywyllwch. Mae gwyddonwyr ledled y byd yn gweithio i drechu'r feirws, a rydym ni fel trigolion yn gwneud ein rhan ninnau i gadw at y rheolau ymbellhau.

Cofiwch hefyd fod yna grŵp o dros hanner cant o wirfoddolwyr yn ein plwy' sy'n barod i helpu unrhyw un mewn angen yn ystod y cyfnod yma - dyma ddangos pa mor ffodus ydyn ni yn ein cymdeithas lleol ninnau yma yng Nghymuned Trefeurig. Mae'r grŵp wedi ei sefydlu ar y we ar Facebook - edrychwch am grŵp o'r enw 'Gofal Trefeurig Care'.

Mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd ar gael i gynorthwyo ac i gynnig cyngor fel bo'r angen - eu rhif ffôn nhw yw 01545 570881.

Gyda'n gilydd mi ddown trwy hyn. Daw eto haul ar fryn.

Mewn cyfnodau o bryder, yn aml iawn mi fydd atgof neu ddau yn dod i fy meddwl.

Rwy'n cofio y Parchedig James Penri Edwards yn cynnal gwasanaeth yng Nghapel Siloah (Capel Ucha') Cwmerfyn yn y chwe-degau - adeg canmlwyddiant y capel, a minnau yn grwt tua deuddeg oed. Yn ei bregeth soniodd am ei bryder fod drysau yr hen ddaear yma yn cau. Am ryw reswm, mae'r bregeth wedi aros yn fy nghof dros y blynyddoedd. Efallai nid oherwydd y pryder am y drysau'n cau ar y ddaear, ond oherwydd ei safiad er gwaetha'r tywyllwch a'r gofid, a'r adnod a ddywedodd ar ddiwedd y bregeth - 'a dyma fi wedi rhoi o'th flaen ddrws agored na fedr neb ei gau'. (Datguddiad 3:8) Glynwn fel cymuned at y gobaith yma.

**Y Cynghorydd Dai Mason**

**Gohirio priodas**

Bu'n rhaid i Lowri a Craig, Maes Seilo, ohirio dydd eu priodas oherwydd y sefyllfa bresennol. Dymuniadau gorau iddynt a gobeithiwn y bydd modd iddynt drefnu'r achlysur yn hwylus pan fydd modd.

**Urdd y Gwragedd, Penrhyn-coch**

Cafwyd noson ddiddorol arall ar yr ail o Fawrth yng nghwmni Helen Palmer, archifydd y Sir yn Archifau Ceredigion, Aberystwyth. Roedd Helen yn garedig i ddod â 5 blwch o Bapurau Miss Florrie Hamer i ni eu gweld, yn ymwneud yn bennaf ag Ystâd Gogerddan ac ardal Bow Street. 'Roedd y sgwrs yn barhad o ymweliad blaenorol Helen yn 2019, pan adroddwyd wrthym am amser Florrie yn Nanteos. Dechreuodd Helen




Elis Wyn a Jac Efan gyda baner Garej Tŷ Mawr.

trwy egluro sut roedd Archifau Ceredigion wedi llwyddo i wneud cais am grant gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Llawysgrifau Genedlaethol, i ariannu'r gwaith cadwraeth oedd yn ofynnol ar gasgliad Florrie Hamer. Gwnaed y gwaith cadwraeth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rhoddodd Helen ddisgrifiad byr inni o gynnwys pob blwch cyn ein gwahodd i'w gweld drosom ein hunain.

Roedd y llyfrau lloffion yn cynnwys cipluniau gwerthfawr mewn amser, rhagflas o sut oedd pethau mewn gwirionedd. Darnau arsylwi o hanes a ysgrifennwyd mewn llyfrau ar bynciau amrywiol, megis y *Merched Casglu Cocos* yn Ynys Lâs, gyda chyfrifon yn disgrifio›r gwelyau cocos ym 1907-1908 a ddarllenodd Helen yn uchel. Darn arall a ddarllenwyd i ni oedd hanes Florrie o'r Sipsiwn yn ymweld â Phenrhyn-coch lle disgrifiodd y carafanau lliw llachar yn fanwl iawn. Roedd yna hefyd gofnodion a thoriadau papur newydd yn ymwneud â gorsaf reilffordd wreiddiol Bow Street a phan ofynnwyd ein barn am yr orsaf bresennol sy›n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd...

'Roedd Florrie yn gydymaith i fenyw Pryse o Gogerddan yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Darllenodd Helen beth o'r ohebiaeth hynod ddiddorol rhwng Florrie a Margaret Pryse Powell, (merch Syr Pryse Pryse), yn



ymwneud yn bennaf â rhedeg beunyddiol Ystâd Gogerddan. *Vignettes* amhrisiadwy am hanes yr oes a fu. Hefyd i'w gael yn y papurau oedd copi o achau a llinach Cŵn Hela Gogerddan gan gynnwys eu henwau mawreddog, a gedwir mewn dau lyfr poced bach o'r enw *A List of Gogerddan Foxhounds 1911-12* a'r llall yn dyddio *1914-16*.

'Roedd Florrie yn adnabyddus i nifer ohonnom, ac y peth mwyaf pwysig amdanni oedd ei bod wedi ysgrifennu'r darnau o wybodaeth i lawr.

Mae Helen yn estyn gwahoddiad cynnes i unrhyw un sy'n dymuno gweld Papurau Florrie Hamer yn Archifau Ceredigion. Daeth y noson i ben gyda phaned o de, bara brith a phice ar y maen (i ddathlu ein nawdd Sant).





GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149
07980 687475

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

# Rhestr Siopau

**Am resymau amlwg mae trefniadau y siopau a'r bwytai hyn yn newid yn gyson – gallai peth o'r wybodaeth fod wedi newid.**

**Aberystwyth**
**Cigyddion**
Cigydd Rob Rattray: Ar agor, yn cludo bwyd, a gwasanaeth casglu lle mae nhw'n rhoi'r bwyd yn eich car heb gysylltiad uniongyrchol. 01970 615353 admin@robrattray.co.uk Tudalen Facebook

Cigydd Penparcau: Ar agor, ac yn cludo bwyd. Archebwch drwy anfon neges Facebook neu drwy ffonio 01970 611022 Tudalen Facebook

Cigydd Morgans: Siop ar agor. Cludo bwyd, ffoniwch 01970 612243 neu 07854 878833, neu anfonwch neges i'r dudalen Facebook - Deri Davies at Morgan's

**Siopau bwyd**
**Treehouse:**
Wedi symud y til i'r ffenest, felly does dim angen mynd mewn i'r siop. Cynnig gwasanaeth cludo yr un diwrnod / diwrnod wedyn, I'r rheini sydd wirioneddol mewn angen. Posib gwneud archeb drwy ebostio morganne@tcth.co.uk Archebion 2 ddiwrnod ymlaen llaw,
Cludiant Mawrth: Capel Dewi, Llandre, Penrhyn-coch, Pen-bont Rhydybeddau.
Cludiant Mercher: Y Borth, Ynys-las, Bow St.

**Ultracomida**.
Oriau 10-2 Llun-Gwener. Yn cludo i'ch drws yn nalgylch y Tincer ac ehangach; archebwch trwy ebostio accounts@ultracomida.co.uk. Gallwch ebostio i ofyn am ffurflen archeb

**Caffis / Bwytai**
Medina ar agor 10-2 dydd Gwener. Tudalen Facebook a gwefan medina-aberystwyth.myshopify.com Archebu cyn 5 dydd Mawrth; danfonir i bellter o 5 milltir o Aberystwyth dydd Iau neu casglu dydd Gwener Dim cost am ddanfon ond lleiafswm o £15 yr archeb.

**Spartacus**
Dal i gludo bwyd, archebwch ar ap JustEat neu drwy ffonio 01970 625885.

**Caffi Express**
Cludo bwyd. Archebwch drwy ffonio 07791 596400.

**Racoono**
Gwasanaeth danfon ffrwythau, llysiau - chwe diwrnod yr wythnos Llun-Sad hyd at 10-15 milltir o'r dref. Tudalen Facebook a gwefan Racoono.com
01970 868366. Hello@racoono.com

**Ymaichi**
Fel mae'r *Tincer* yn mynd i'r wasg daw manylion arlein am y gwasanaeth www.ymaichi.co.uk yn Aberystwyth sydd yn danfon cig, llysiau, ffrwythau, nwyddau a phrydau allan – dyma y dyddiau maent yn danfon i ardaloedd y Tincer:
Dydd Mawrth a dydd Gwener i Penrhyn-coch, Bow Street, Y Borth a Llandre
Dydd Mercher a dydd Sadwrn i Capel Bangor a Goginan
01970606010 post@ymaichi.co.uk

**Fferyllfeydd**
Boots, Aberystwyth: Oriau agor newydd – 10-5 Llun-Sadwrn, 10-4 Sul.

**Y Borth – gweler t.4 am fwy o fanylion**
Fferyllfa'r Borth: Cludo nwyddau.
Premier Family Stores, Y Borth Cludo nwyddau rhad ac am ddim
NISA y Borth : Cludo nwyddau rhad ac am ddim

**Bow Street a Llandre**
**Cigydd Bow Street**: ar agor 8.30 tan 5, Llun i Sadwrn, yn gwerthu cig, bara, llysiau, llaeth, cawsiau ac yn y blaen. Yn derbyn archebion dros y ffôn – 01970 828 447 07976 261116 sales@bowstreetbutchers.co.uk – ac yn dosbarthu nwyddau yn y pentref a chyn belled a Tal-y-bont a Phenrhyn-coch. Gweler tudalen Facebook a http://bowstreetbutchers.co.uk
**Tafarn Rhydypennau**: Cludo bwyd, ffoniwch 01970 867888.

**Spar**, **Bow Street**, yn cynnwys swyddfa'r post, ar agor 7 y bore tan 10 y nos, bob dydd: Cludo nwyddau i'r rheini sydd yn hunanynysu ar ddyddiau Llun, Mercher a Gwener– ffoniwch 01970 828282 neu 07771 692732.
**Garej Rhydypennau**: ar agor fel arfer.

**Goginan**
**Druid** Bwyd i fynd – wythnos 7 Ebrill ar ddyddiau Mawrth a Mercher 6-8.00 Ceir manylion ar eu tudalen Facebook – cysyllter trwy honno DDIM ar y ffôn.

**Penrhyn-coch**
**Garej Tymawr:**
Oriau Agor 9.00-5.00. Yn fodlon cludo nwyddau i'r henoed a'r bregus yn ardal Trefeurig. (01970) 828330

**Siop / Swyddfa Post:**
Oriau Agor 7.00am – 9.00pm (01970) 828312 neu sioppenrhyn@btinternet.com
Barod i gludo nwyddau i'r rhai sy'n hunanynysu yn ardal Trefeurig.

**Llaeth**
Sean Fitzpatrick Artro, Penrhyn-coch, SY23 3EG. 07415 067 974 s.fitzpatrick176@gmail.com
Danfon Llaeth/Wyau/Caws/Menyn/Sudd ffrwythau a Iogyrt (mawr a bach)

**Roosters**
Danfon a bwyd i fynd o Glwb Pel-droed Penrhyn-coch. Nosweithiau Gwener a Sadwrn o 5.00 ymlaen a chinio rhost Sul rhwng 12 a 2 ar ddydd Sul Gellir archebu o 07813714799. Pizza nos Wener; cinio Sul Awgrymir archebu ymlaen llawn 01970 828992

**Tal-y-Bont, Taliesin a Tre'r Ddôl**
Cletwr: Caffi ar gau. Oriau'r siop wedi newid i 9-5 Llun-Sadwrn (ar gau dydd Sul). Cludo i ardal Llangyfelin.
Fferyllfa Tal-y-bont: Cludo nwyddau.
Mae Garej Davmor Tal-y-bont ar agor, yn cynnwys eu siop sydd yn gwerthu bara, llaeth, bwyd tun a bwyd rhew ag ati.



# Colofn Elin Jones

Dyma ni'n wynebu un o'r cyfnodau mwyaf heriol mae'n bosib welwn ni erioed. Mae'r Coronafeirws wedi newid pob agwedd ar fywyd. Pwy fyddai wedi meddwl y byddai'r fath gyfyngiadau mewn lle gwta fis yn ôl!

Yn gyntaf, dwi'n gobeithio eich bod yn iach, a'ch bod chi a'ch teulu a'ch cymdogion yn cymryd y camau angenrheidiol i ofalu am eich gilydd. Er mor anodd yw'r sefyllfa, mae yna nifer o agweddau positif iawn wedi dod i'r amlwg yn barod. Mae'n braf gweld cymunedau'n dod at ei gilydd i ofalu am eu cymdogion, ac mae'r nifer o bobl sy'n gwirfoddoli yn galonogol iawn, gan gynnwys y clybiau ffermwyr ifanc.

Hoffwn ddiolch i'r Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd am y gwaith gwych maent yn gwneud yn y cefndir. Rydym yn ffodus iawn yng Ngheredigion bod cystal cydweithio rhwng asiantaethau, ac mae'r cyd-dynnu a chynllunio gwych yn mynd i fod yn gefn mawr i ni yn yr wythnosau sydd i ddod. Maent yn ymateb i bob un o'r heriau sy'n codi, gyda brwdfrydedd a pharodrwydd i ddod o hyd i ddatrysiad i bob problem. Dwi'n siŵr hefyd ein bod i gyd yn ddiolchgar iawn i'r holl weithwyr allweddol, rhai sydd yn gorfod dygymod a chadw pellter wrth eu teuluoedd oherwydd eu gwaith. Diolch o waelod calon i chi weithwyr yr NHS, gwasanaethau gofal ac argyfwng.

Mae fy swyddfa i a swyddfa ein Haelod Seneddol, Ben Lake, wedi derbyn gohebiaeth gan sawl busnes a pherson hunangyflogedig yn poeni'n arw am y sefyllfa. Rwy'n falch bod Ben wedi llwyddo i godi'r materion yn San Steffan, a bod cyllid cyfatebol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi bod yn gweithio yn galed i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid i gefnogi busnesau ar gael cynted a bod modd, a gobeithio cyn hir bydd y pecyn cyflawn o gymorth ariannol yn cyrraedd y mannau cywir.

Mae hefyd cydweithio gwych wedi bod rhwng nifer o'r busnesau'n lleol i gydlynu gwasanaethau cludo bwyd a nwyddau i bob cwr o'r sir, ac mae'r modd maent wedi gallu addasu eu darpariaethau mor gyflym yn dangos gwir gymeriad a chryfderau pobl Ceredigion.

Rydym wedi gorfod addasu pob agwedd o'n bywydau, ac roeddwn yn falch i gadeirio cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar-lein. Wrth gwrs, mae'r angen i beidio ymgasglu wedi meddwl gohirio neu ganslo sawl digwyddiad hollbwysig i nifer. Mae sawl sioe amaethyddol, digwyddiadau celfyddydol, a gwasanaethau eglwys a chapel wedi gorfod peidio digwydd. Mae Eisteddfod Ceredigion 2020 wedi ei gohirio tan Awst 2021. Diolch i bawb am ddeall y rhesymau am hynny a gobeithio yn wir y cawn ailgydio yn y gwaith paratoi mor gynted â phosib.

Efallai bydd nifer ohonoch wedi clywed i mi gael deiagnosis o'r Coronafeirws. Ysgafn iawn oedd fy symptomau diolch byth ac mi rydw i bellach wedi gwella. Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth anfon negeseuon caredig i mi.

Dwi'n siŵr bydd heriau eraill i ddod eto, ond dwi'n ffyddiog iawn y byddwn yn goresgyn y cyfnod yma gyda'n gilydd. Gofalwch am eich gilydd, byddwch garedig i eraill a daw eto haul ar fryn.

GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

Trydan WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Profi
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

CIGYDD BOW STREET 01970 828447 Deli BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

# BOW STREET

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Freda Morris, Neuadd Wen, Brynmeillion, ar ddod yn hen fam-gu – ganwyd merch fach - Briall Non - i Fflur a Trystan Fron ar 21 Mawrth.

**Rhestr fer**

Dymuniadau gorau i Medi Jones-Jackson, Garn Villa,– mae ei chyfrol *Genod gwych a merched medrus* (Y Lolfa) – wedi cyrraedd rhestr fer llyfrau plant Gwobrau Tir Na-Nog 2020 yn y categori Llyfrau Plant. Cyhoeddir yr enillydd mewn digwyddiad yn yr haf. Gweler adolygiad ar t.22

**Cigydd Bow Street**

Dymunwn yn dda i Heath a Rhian wrth iddyn nhw symud ymlaen i'w menter nesa wedi cyfnod yn rhedeg siop cigydd yn Bow Street, ac mae'n braf croesawu tîm newydd, dan ofal Mathew Davies, i gynnal y busnes ym Mhendre. Yn ogystal â chigoedd o bob math, mae modd prynu bara (o siop Pelican, Aberystwyth), llaeth, cawsiau, llysiau a ffrwythau, a rhai bwydydd eraill hefyd. Un o Ffostrasol yw Mathew, ac mae'n amlwg yn hoffi gweithio'n galed – yn ogystal â rhedeg y siop, mae'n cynnig gwasanaeth cludo i'r cartref hefyd. Dymuniadau gorau i Mathew a'r staff at y dyfodol. Diolch i'r drefn, ar adeg sgwennu'r pwt yma o stori mae'r siop yn dal ar agor ac yn llawn bwydydd blasus, felly galwch heibio i'w chefnogi! Mae ganddo dudalen Facebook – Bow Street Butchery. Rhif ffôn 01970 828447 sales@bowstreetbutchers.co.uk Mae modd archebu yn Gymraeg.

**Ailagor Tafarn Rhydypennau**

Roedd yn hyfryd gweld Tafarn Rhypennau yn ailagor ar ei newydd wedd nos Fercher, 19 Chwefror. Daeth criw mawr o bobl leol yno i gefnogi'r digwyddiad. Nododd Ben Lake, AS, wrth ei hailagor, ei bod yn wych o beth gweld tafarn yn mynd o nerth i nerth, a bod hon, fel pob tafarn bentre, yn chwarae rhan bwysig yn ei chymuned, a hynny ar adeg ddigon heriol. Daeth â›r sgwrs i ben drwy ddymuno'n dda i Barrie Jones, y landlord, ac i'w staff.

Cwmni Stars Pubs and Bars, rhan o Heineken, sy'n berchen y dafarn, ac mae'n dda gweld Barrie yn ôl wrth y llyw – a thu ôl i'r bar – unwaith yn rhagor. Mae'r dafarn wedi cael ei haddurno'n chwaethus, ac mae lle i fwynhau glasied o win neu beint o seidr y tu allan yn yr ardd gwrw. Cyflogir 10 aelod o staff, ac mae'n cynnig prydau bwyd amrywiol, yn ogystal â dewis helaeth o ddiodydd o bob math. Mae pobl ardal y *Tincer* yn edrych ymlaen yn arw at gael mynd i'r dafarn unwaith eto yn fuan iawn, a chymdeithasu. Cofiwch gefnogi!

Mae hefyd yn werth nodi fod Tafarn Rhydypennau ar hyn o bryd yn darparu prydau poeth i'r rhai sy'n hunanynysu, ac i'r henoed, ac yn cludo bwyd i gartrefi Bow Street, Dolau Tal-y-bont, y Borth, Clarach a Llandre. Mae hyn yn cynnwys cinio dydd Sul llawn. **Plis nodwch fod angen archebu o leiaf ddiwrnod ymlaen llaw.** Ceir mwy o fanylion ar dudalen Facebook y dafarn, neu ffoniwch 01970 867888. Diolch yn fawr i Barrie a'r staff am fod yn barod i gynnig y gwasanaeth hwn, ac am eu gwaith diflino yn ystod yr adeg anodd hon.







### Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion 2020-2021

Yng Nghyfarfod Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion a gynhaliwyd ddydd Gwener 20 Mawrth etholwyd y Cynghorydd Gareth Davies yn Gadeirydd y Cyngor am 2020-2021 a'r Cynghorydd Paul Hinge yn Is-Gadeirydd.

Agorwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Peter Davies MBE sy'n ymddeol fel Cadeirydd trwy annerch y Cyngor gan adlewyrchu ar ei flwyddyn fel Cadeirydd. Ar ôl cael ei ethol fel y Cadeirydd, fe wnaeth y Cynghorydd Gareth Davies o Ward Llanbadarn Fawr Padarn dderbyn y Swydd a chafodd ei gyflwyno â'r Gadwyn gan ei ragflaenydd. Yna fe anerchodd y Cyngor gan ddweud bod cael ei ethol yn Gadeirydd yn anrhydedd fawr a'i fod yn awyddus i helpu i wasanaethu'r sir yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r Cynghorydd Gareth Davies wedi bod yn Gynghorydd sir ers 2004 gan Gadeirio nifer o bwyllgorau o fewn y Cyngor. Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Llanbadarn Fawr ac yn weithgar iawn yn y gymuned yn Llanbadarn Fawr. Fe'i ganwyd a'i fagwyd yn New Row, Pont-rhyd-y-groes. Addysgwyd yn Ysgol Gynradd Ysbyty Ystwyth ac Ysgol Uwchradd Tregaron. Penodwyd y Parchedig Ganon Andrew Loat yn Gaplan i'r Cadeirydd am 2020-2021.

Etholwyd y Cynghorydd Paul Hinge o Ward Tirymynach yn Is-gadeirydd y Cyngor. Fe wnaeth Ddatganiad o Dderbyn y Swydd ac fe gafodd ei gyflwyno ag Arwydd o'r Swydd iddo gan y Cadeirydd. Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Ceredig Davies a'I eilio gan y Cynghorydd Rowland Rees Evans.

**Coronafeirws**

Wrth i`r sefyllfa gyda Coronafeirws ddwysáu ac wrth i`r pwyslais ar hunan ynysu gynyddu gyrrwyd llythyr gan Glerc Cyngor Cymuned Tirymynach, y Parchg Richard Lewis yn atgoffa trigolion Llandre, y Borth a Llangorwen y gallent gysylltu â fo os hoffent gymorth gyda siopa ag ati er mwyn iddo fedru eu rhoi mewn cysylltiad â`r gwirfoddolwyr sydd yn barod i helpu. Dosbarthwyd y llythyr trwy ddrysau tai yn Bow Street, Dolau a Llangorwen.

(01970) 828102 / 078 176 388 09

Ebost: maesceiro@gmail.com

**Cwis Eisteddfodol**

Bu tipyn o sisial, crafu pen a chnoi pensel yn Neuadd Rhydypennau, Bow Street, ganol Mawrth, pan gynhaliwyd cwis at apêl yr Eisteddfod Genedlaethol. Daeth dros 50 o bobl o bob oed at ei gilydd, a'r cwisfeistr Gareth William Jones, gyda chymorth Iestyn Hughes, fu'n ein herio â ffotograffau di-ri, cwestiynau cryptig, a chlipiau sain. Llongyfarchiadau mawr i dîm Marian, Gwenda a Nest am ddod i'r brig. Codwyd dros £235 at yr apêl, gan gynnwys yr hyn godwyd trwy ocsiwn lle gwerthwyd print arbennig o waith yr arlunwraig Rhiannon Roberts. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am gefnogi, ac yn arbennig i bwyllgor y neuadd am bob help, i bawb helpodd yn y gegin, ac yn arbennig i Gareth ac Iestyn.







## CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Marwolaeth**

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Mrs. Brenda Evans, Garej Exchange, dim ond saith wythnos wedi iddi golli ei phriod Richard neu Dick fel yr adnabuwyd ef.

Daeth Brenda i fyw i'r ardal yn 1967 wedi iddi hi a'i phriod brynu y garej leol. Ymdaflodd yn syth i'r gwaith a bu yn gaffaeliad mawr i'r fusnes o'r dechrau cynnar. Ymunodd a Sefydliad y Merched a bu'n aelod gwerthfawr dros ben ar hyd y blynyddoedd. Un o ddiddordebau Brenda oedd gwaith llaw, roedd wrth ei bodd yn gwau neu wnïo a byddai'r teulu yn elwa yn fawr o'r diddordebau hyn. Ni fu yn berchen ar yr iechyd gorau ers rhai blynyddoedd ond daliodd i edrych yn bositif ar fywyd, a chyda help y mab a'i briod a'u hwyresau hoff, bu'n bosibl iddi ofalu am ei phriod gyda'r gofal pennaf nes iddo ef fynd i'r ysbyty ac iddi hithau dreulio wythnosau olaf ei bywyd yng Nghartref Plas Cwmcynfelin, Clarach.

Gwelwn eisiau y teulu bach yma yn fawr a chydymdeimlwn yn ddiffuant unwaith eto gyda Mark, Iona, Ffion ac Anna a'r teulu estynedig yn eu hiraeth a'u siom o golli tad a mam mor agos i'w gilydd. Oherwydd y sefyllfa y cawn ein hun ynddi ar hyn o bryd, ni fu yn bosibl i ni'r ardalwyr fynychu'r cynhebrwng a gymerodd le yn Amlosgfa Aberystwyth ar Fawrth 26ain. Pob bendith arnoch fel teulu.



Cinio Gwyl Ddewi MYW Melindwr

**Aros i Feddwl**

A ninnau mewn sefyllfa na welsom ei thebyg o'r blaen, digon o amser i wneud pob dim, pobl yn gweithio o adre, plant o'r ysgol a'r neiniau a'r teidiau yn methu gweld eu hwyrion, mae'n sefyllfa drychinebus onid yw. Cofiwn am bob un sy'n dioddef o'r feirws corona, cofiwn hefyd am bob un yn eu hunigrwydd a'u hofn y dyddiau rhain. Mae'n galondid cael gair o Fyfyrdod gan y Parch Dr. Watcyn James a hyn ar ddyddiau'r wythnos neu ar y Sul ar lein (Facebook Capel y Garn) ac un o'i destunau yn ystod yr wythnos oedd "Duw sy'n noddfa a nerth i ni, cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder". Gwnawn yn fawr o gysuron yr Efengyl a ninnau mewn awyrgylch mor dywyll ac anobeithiol, a gwnawn y gorau dros ein cydnabod a'n cymdogion a chofiwn "os gallaf helpu rhywun ar fy nhaith drwy'r byd, nid yn ofer fy myw yn y byd". Hyderwn y daw haul ar fryn unwaith eto, fel y medrwn gymdeithasu fel cynt.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 18 Chwefror yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Is-gadeirydd Gwenan Price yn y gadair, a'r cynghorwyr Edwina Davies, Shân James, Richard Owen, Dai Mason ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriad wedi'i dderbyn gan y Cadeirydd, Delyth James.

Materion yn codi: nid oedd fawr o ddatblygiad ynglŷn â'r rhan fwyaf o'r materion a nodwyd yn adroddiad cyfarfod mis Ionawr. Llwybr Beicio i Gogerddan – roedd y gwaith wedi dechrau ar hwn ac roedd yn mynd yn ei flaen yn gyflym. Roedd sôn wedi bod am y berth rhwng Plas Iorwerth a Gogerddan. Adroddodd y Cynghorydd Sir fod bwriad i'w symud yn ôl i gyfeiriad y cae yn ei chrynswth fel na fyddai angen plannu perth newydd. Y tir wrth Horeb a elwir tir Pen-banc – fe ddatganodd Shân James fudd yn y mater. Adroddodd Dai Mason fod Wales and West Housing wedi newid y cynllun ac roeddynt yn awr yn bwriadu rhoi saith tŷ ar flaen y safle wrth y ffordd a rhoi'r byngalos yn y cefn. Darllenodd lythyr yr oedd wedi'i ysgrifennu at swyddogion cynllunio Ceredigion ble roedd yn gofyn i'r Cyngor ofyn i'r cwmni roi'r byngalos yn y tu blaen a'r tai yn y cefn. Gan fod y cynllun wedi newid, penderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor i ofyn a fyddai angen cais cynllunio newydd.

Ceisiadau am gymorth ariannol 2019/20 – penderfynwyd cyfrannu'r symiau canlynol i wahanol fudiadau: Cae Chwarae Pen-bont, £300; Cae Chwarae Penrhyn-coch, £300; Brownies Penrhyn, £250; Y Tincer, £250; Cyfeillion Tregerddan, £300; Clwb Pêl-droed (Ieuenctid), £350; Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penrhyn-coch, £400; Cylch Meithrin Trefeurig, £300; Neuadd y Penrhyn, £400; Ambiwlans Awyr Cymru, £300; Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol 2020, £200; Eisteddfod Penrhyn-coch, £150; Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020, ail gyfraniad o £500 – cyfanswm o £4,000.

Ni chynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar 17 Mawrth oherwydd haint Covid 19.


inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

01970 626 200

Crefftau Pennau

Coffi Boreuol

Byrbrydau Poeth neu Oer

Cinio

Te Prynhawn

Crefftau Ac Anrhegion

Ar agor Llun-Sadwrn

Brecwast ar gael

01970 820 050

Pennau




STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion

Monitro Diogelwch 24 Awr

Wedi ei wresogi

Bocses a 'bubblewrap' ar lein

www.boxshopsupplies.co.uk

Mid Wales Removals

Ffôn: 01654 703592

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

www.midwalesstorage.co.uk

Trefnwyr Angladdau

C T Evans

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

01970 820013

gwyn@ct-evans.co.uk

Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS


## MADOG

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Mrs Sylvia Powell, Nant y Bwla ar ôl bod yn sal yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Ennill cadair**

Llongyfarchiadau i Sian Evans enillodd Gadair Eisteddfod Ysgol Penrhyn-coch eleni.



**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Y Lawrglo



Dwdl 'Diolch am ein helpu' wnaeth Steffan jones, Dôl Helyg



Llun: Richard Crowe

Gwelwyd lluniau o eifr yn crwydro strydoedd Llandudno;
ieir gwyllt sydd yn adfeddiannu Penrhiwnewydd!

## Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Mawrth 19eg yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor gyda'r cadeirydd Richard Edwards yn y gadair. Roedd yna ymddiheuriadau oddi wrth dri chynghorydd.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror fel rhai cywir. Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn llythyr o ddiolch oddi wrth Sioe Capel Bangor am y rhodd ariannol.

Mae y diwrnod ymgynghoriad efo rhieni a phlant ynglŷn â datblygu y Parc Chwarae a oedd i'w drefnu ar Ebrill 17eg wedi ei ohirio.

Roedd dau gynghorwr wedi bod yn nigwyddiad Pentir Pumlimon yn Nant yr Arian ar Chwefror 27ain.

Noder fod yna sedd wag ar y Cyngor; os oes rhywun â diddordeb cysylltwch â'r clerc neu un o'r Cynghorwyr am fanylion.

Mae y Cynghorydd Sir, Rhodri Davies wedi creu tudalen Facebook Materion Melindwr Matters COVID-19. Mae hwn yn cael ei ddiweddaru yn ddyddiol efo gwybodaeth Sir Ceredigion. Diolch Rhodri.*

Oherwydd yr amgylchiadau presennol ni chynhelir cyfarfod ym mis Ebrill.

Cadwch yn saff drigolion Melindwr.

Gellir cysylltu gyda Rhodri Davies ar 07976266578 (Gol)

## A yw coronafeirws yn effeithio ar anifeliaid anwes?

Hyd yn hyn cyhoeddwyd adroddiadau am dri achos lle canfuwyd COVID 19 mewn cŵn a fu'n byw gyda pherchnogion heintiedig. Cadarnhawyd yr haint mewn cath a fu'n byw gyda phobl heintiedig yng Ngwlad Belg. Yn wahanol i'r cŵn, datblygodd y gath symptomau gan gynnwys dolur rhydd, chwydu ac anhawster anadlu..

Awgrymodd gwaith rhagarweiniol mewn labordy yn China mai cathod a ffuredau oedd y rhywogaethau mwyaf tueddol o ddal y clefyd a dangos symptomau. Dangoswyd bod y feirws yn bresennol mewn llysnafedd trwynol dwy gath heintiedig. Llwyddwyd i heintio dau gi ond ni luosodd y feirws yn rhwydd ynddynt. Methwyd â heintio moch, ieir a hwyaid.

Er bod ychydig iawn o anifeiliaid anwes wedi dal yr haint oddi wrth eu perchnogion, dylid pwysleisio nad oes tystiolaeth bod cŵn na chathod wedi heintio pobl na chwarae rhan sylweddol mewn lledu'r feirws. Ni awgrymir bod rhaid symud anifeiliaid o gartrefi pobl sydd yn hunan-ynysu, hyd yn oed os bydd pobl yn y tŷ yn datblygu symptomau .

Tynnwyd sylw y gallai'r feirws oroesi am gyfnod ar flew anifail mewn cartref lle mae'r bobl yn dioddef o'r haint. Gallai coleri, tenynnau ac ati gario'r feirws. Felly, ystyriwch ddefnyddio diheintydd wrth wirfoddoli i fynd â chi rhywun sy'n hunan-ynysu am dro.

Nid awgrymir rhoi masgiau ar anifeiliaid anwes ond wrth fynd â chŵn am dro mewn lleoedd cyhoeddus, mae'n well i'w cadw ar dennyn er mwyn lleihau'r siawns o orfod torri rheolau gwahanu.

Mae milfeddygon wedi derbyn cyngor i beidio â chynnig apwyntiadau ar gyfer materion cyffredin, megis brechiadau blynyddol ac ysbaddu. Gellir cynnig ymgynghoriadau ffôn a threfnu i gleientiaid dderbyn moddion. Bydd milfeddygon ar alw fel arfer i drin anifeiliaid anhwylus neu wedi'u hanafu ond peidiwch â mynd ag anifail i'r filfeddygfa heb gysylltu ymlaen llaw.

**Jackie Willmington**

**Cyn ymddeol roedd Jackie yn Swyddog Ymchwil Milfeddygol gyda'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol (VLA) – bellach Asiantaeth Iechyd Anifeiliad a Phlanhigion**

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

Clwb Cymdeithasol
Pêl-droed
Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT
GRIFFITHS
Am bob math o waith
garddio ffoniwch
(01970) 820924

Cofiwch
gefnogi eich
busnesau
lleol

James
Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# Cylch Cinio




Rhai o aelodau Cylch Cinio Aberystwyth, mewn dyddiau gwell ar eu gwibdaith haf y llynedd i bentre Llangrannog.

Yn unol â'r canllawiau i ymateb i argyfwng y Coronafeirws mae cyfarfodydd Cylch Cinio Aberystywyth wedi eu canslo ar gyfer misoedd Ebrill a Mai. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn ddiweddarach ynglŷn â chyfarfod yn y misoedd sy'n dilyn.

Mae aelodau'r Cylch wedi penderfynu cyflwyno y tâl aelodaeth misol i gefnogi gwaith clodwiw a heriol Banc Bwyd Aberystwyth yn fisol am bob mis pan na fyddwn yn cyfarfod.

Sefydlwyd y Cylch Cinio 45 mlynedd yn ôl er mwyn hybu Cymreictod Aberystwyth yn gymdeithasol a diwylliannol ac mae' n cyfarfod mewn lleoliadau gwahanol yn y dre yn fisol. Mae'r Cylch hefyd yn cefnogi nifer o weithgareddau yn yr ardal yn ariannol ac yn ymarferol, gan gynnwys y papurau bro, Parêd Aberystwyth ac elusennau lleol. Y Cylch Cinio sydd hefyd yn cyfrannu y Gadair ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion.

Yng nghyfarfod diwethaf y Cylch daeth criw da o aelodau ynghyd ar Nos Wener, 13 o Fawrth i gyfarfod yn Llety Parc gan fwynhau noson gymdeithasol. Y gŵr gwadd ar y noson oedd Dafydd Morris-Jones o ardal Ysbyty Cynfyn, ger Ponterwyd. Yn ogystal â bod yn ffermwr defaid mae Dafydd yn gyfieithydd. Mae wrth ei fodd yn arwain teithiau cerdded o amgylch y mynyddoedd yn cynnwys mynd i mewn i ogofâu.

Cafwyd sgwrs ddiddorol dros ben am y cynllun "O'r Mynydd i'r Môr" sydd â barn cryf ar bob ochor. Elusen o'r enw Rewilding Britain sydd yn gyfrifol am y cynllun. Mae Dafydd yn pryderu y gallai'r cynllun arwain at lai o ddefaid yn cael pori ar fynyddoedd Pumlumon ac yn sgîl hyn bygythiad i'r economi lleol. Erbyn nawr mae Rewilding Britain wedi gadael y cynllun ac mae ymadawiad Rewilding Britain o brosiect ail-wylltio yn gyfle i edrych eto ar y cynllun. Diddorol oedd clywed bod George Monbiot wedi ymweld â'r ardal wrth ysgrifennu ei lyfr am ail-wylltio "Feral". Talwyd y diolchiadau gan Lewis Owen.



**Ysgol Rhydypennau**

Gwelwyd sawl un yn rhoi hen luniau ar Facebook y mis diwethaf – dyma un o nifer roddodd Iola Wyn o'i chyfnod yn Ysgol Rhydypennau. Diolch i Iola am y llun a'r enwau.

Rhes gefn o'r chwith : Dylan Jones, Daniel Parri, Marc Jones, Melissa Bovey, Elin Jenkins, Dafydd Gerallt, Rachel Parott;

Rhes ganol: Arwel ?? Jones?, Rhun ap Robert, Ian Adams, Sarah John, Caren Williams, Iola Wyn.

Blaen: Amy Wittington, Sian Evans, Claire Barnes, Miss Ann Morgan, Adrian Evans, Paul Chandler, Rhys ap Tegwyn

# O'r Mynydd i'r Môr a Sian Stacey



**Pwy yw Sian?**
Dwi'n dod o Sir Gar ond rydw i'n byw ar lan y môr yn Aberystwyth ers 2019. Symudais yma i weithio yn Cywain, prosiect bwyd a diod Menter a Busnes. Cyn hyn roeddwn i'n byw a gweithio ar Ynys Enlli. Fi oedd y Warden/Rheolwr yr Ynys.

**Beth yw prosiect O'r Mynydd i'r Môr?**
Mae O'r Mynydd i'r Môr yn brosiect sy'n gobeithio hybu ecosystemau iach, cymunedau cryf ac economi lleol cynaliadwy o'r mynydd (Pumlumon) i'r Môr (Bae Ceredigion). Mae saith partner yn rhan o'r prosiect, a'r bwriad yw ehangu hyn dros y misoedd nesaf. Rydym eisiau cefnogi'r pethau da sydd eisioes yn digwydd yma, rhoi cyfle i ddatblygu syniadau newydd a chefnogi rhain.

**Beth yw fy rol i?**
Ers Awst 2019, fi yw Cydlynydd Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae'n bwysig iawn i ni wrando ar y bobl sy'n byw yn ardal y prosiect a sicrhau bod cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd i drafod dyfodol yr ardal. Wedi cynnal sawl grwp trafod a threulio amser mewn pentrefi a'r trefi lleol, mae'n amlwg bod llawer iawn o waith da yn digwydd yma. Mae angen i ni ddathlu ac adeiladu ar y ffermio cynaliadwy sy'n elwa byd natur a'r holl fusnesau lleol sy'n cadw'r economi wledig i fynd.

**Pam gwneud y swydd?**
Ar Ynys Enlli, roeddwn i'n byw mor agos at y tir a natur ac yn profi sut roedd penderfyniadau'r fferm yn cael effaith positif ar fywyd gwyllt a natur. Fel lle i ymwelwyr, ro'n i'n gallu gweld sut gallai'r ynys wella safon/pris y cynnyrch er mwyn ei wneud yn fwy cynaliadwy. Mae'r themau hyn yn rhan annatod o O'r Mynydd i'r Môr, dwi'n teimlo'n ffodus fy mod i mewn sefyllfa i helpu a hwyluso'r drafodaeth er budd yr ardal.

**Ydy O'r Mynydd i'r Môr yn brosiect 'Rewilding' / Ailwylltio?**
Na. Mae'r cysylltiad gydag ailwylltio/ rewilding wedi cael effaith negyddol ar y prosiect. Mae'r bobl leol wedi esbonio wrthai eu bod nhw'n ofni bod y prosiect am gefnu ar y tir a'i adael i fynd yn ddiffaith, nid dyma beth mae O'r Mynydd i'r Môr yn gobeithio gwneud. Roedd Rewilding Britian yn rhan o'r prosiect nes Hydref 2018, roedd pobl yn ofni byddai'r prosiect yn cyflwyno bleiddiaid, lyncs a rhywogaethau rheibus eraill i'r ardal, nid dyma'n bwriad ni. Rydym am gefnogi cynefinoedd sydd yn dda i natur, pobl a'r economi.

**Beth sydd ar y gweill?**
Ers i Rewilding Britain adael, rydym wedi bod yn brysur yn ail-sefydlu'r prosiect. Dwi wedi bod yn cyfarfod a nifer o unigolion, a grwpiau lleol er mwyn dysgu am syniadau a phryderon y bobl leol a meddwl sut gallwn ni addasu'r prosiect er gwell. Rydw i wedi cynnal naw cyfarfod agored a chwrdd 150 o bobl leol. Roedd yn gyfle gwych i ddysgu am anghenion y gymuned ehangach. Mae adroddiad llawn ar ein gwefan http://www.ormynyddirmor.cymru/ ebostiwch fi am wybodaeth bellach **sian.stacey@summit2sea.wales**

## Myfyrdod y Pasg

Wrth i'r sefyllfa o ran y pandemig Coronafeirws (COVID-19) ddatblygu, rydym i gyd yn gorfod addasu i ddulliau gwahanol o fyw. Mae cyfarwyddyd digamsyniol y Llywodraeth i aros gartref wedi cyflym ddod yn realiti. Ni allwn fynd allan bellach oni bai fod hynny'n gwbl angenrheidiol a phan fyddwn yn camu allan, rhaid ymarfer ymbellhau cymdeithasol. Mae'n gyfnod anodd i bawb, yn arbennig i'r rhai sydd mewn profedigaeth a galar, neu'n teimlo'n ofnus am y dyfodol ac yn methu cael cwmni a chysur teulu a chymdogion.

Tra bo digwyddiadau ledled y wlad yn cael eu canslo, neu'u gohirio, un digwyddiad a fydd yn mynd yn ei flaen – ond nid fel y'i bwriadwyd – yw dathliad Sul y Pasg pan gofiwn sut y gorchfygodd Iesu farwolaeth. Mae ei eiriau am fywyd newydd yn Efengyl Ioan yn ein gwahodd i ystyried beth mae hynny'n ei olygu i ni a'n cymunedau heddiw: "Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder". (Ioan 10:10).

Yn ôl Efengyl Ioan, y tyst cyntaf i Atgyfodiad Crist oedd Mair Magdalen. Ar fore'r Pasg cyntaf hwnnw roedd hi wedi mynd at y bedd gan feddwl fod Iesu wedi marw. Ond wedi cyrraedd yno cafodd syndod o'r mwyaf o weld bod y maen wedi'i symud a chorff Iesu wedi diflannu. Tra'n sefyll y tu allan i'r bedd yn ei dagrau daeth dyn ati gan ofyn iddi paham yr oedd yn wylo. Gofynodd Mair iddo a oedd yn gwybod beth oedd wedi digwydd i gorff Iesu. Sylweddolodd yn fuan nad y garddwr oedd y gŵr dieithr fel yr oedd hi wedi tybio, ond Iesu ei hun. Ar unwaith trodd ei dagrau o dristwch yn ddagrau o lawenydd o weld y Crist byw yn sefyll o'i blaen. Yna siaradodd Iesu â hi: 'Paid â glynu wrthyf, oherwydd nid wyf eto wedi esgyn at y Tad'.

Mae'n siwr i'r geiriau yma beri rhwystredigaeth a thristwch i Mair. Ychydig ddyddiau ynghynt ar y dydd Gwener, roedd hi wedi gweld Iesu yn marw yn y modd mwyaf erchyll a chreulon. Ond er fod Iesu bellach yn fyw ac yn siarad â hi y tu allan i'r bedd, ni allai hi lynu wrtho mwyach gan y byddai'n esgyn i'r nefoedd, ac mai trwy rym a nerth yr Ysbryd Glân yr oedd modd glynu wrtho yn barhaol.

Er nad ydym yn siwr am ba hyd y bydd bygythiad y Coronafeirwr a'r cyfyngiadau o ran cymdeithasu a chadw pellter yn parhau, gallwn ninnau hefyd lynu yn gwbl ddiogel wrth rym a nerth y Crist atgyfodedig y Pasg hwn.

**Judith Morris**

## Adolygiad


John Morris *Cardi yn y Cabinet* Y Lolfa, £7.99   126t

Ychydig o flynyddoedd yn ôl cawsom flas mawr ar bori drwy atgofion hynod ddifyr yr Arglwydd John Morris o Aberafan yn ei *Fifty Years in Politics and the Law* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2011). A bellach, mawr yw ein diolch iddo, ac yntau bellach yn ei wythdegau hwyr (ond eto yn dal yn llawn egni a brwdfrydedd), am fynd ati i lunio cyfrol sydd yn fwrlwm o ddiddordeb ac sydd yn ddiweddariad cyfoes i'r gyfrol wreiddiol.

Cafodd John Morris yrfa hir a disglair fel gwleidydd Llafur a ddringodd i uchelfannau ein cyfundrefn wleidyddol. Trwy'i eiriau a'i brofiadau, cawn ddarllen am hanes y Blaid Lafur drwy lygaid Cymro diffuant a fu'n gyson ei gefnogaeth i ddatganoli. Cafodd ei ethol yn Aelod Seneddol Aberafan yn etholiad cyffredinol 1959, gan barhau i gynrychioli'r un etholaeth am bedwar deg a dwy o flynyddoedd.

Gwasanaethodd fel Ysgrifennydd Cymru yn ystod y blynyddoedd rhwng 1974 a 1979, ac yn ddiweddarach daliodd swydd Twrnai Cyffredinol yn ystod llywodraeth Tony Blair. Pan oedd yn ei anterth yn y Swyddfa Gymreig roedd ganddo dair mil o staff yn gweithio iddo. Bellach, rhyw dri deg sydd yn y Swyddfa Gymreig yn oes datganoli, ac mae John Morris yn cwestiynu yma a oes angen y fath swydd ag adran mewn gwirionedd, a'r Cynulliad Cymreig yn realiti gwleidyddol. Pwysleisia fod angen dirfawr ar hyn o bryd i weinidogion San Steffan, a'r rhai ym Mae Caerdydd, i gydweithio'n fwy agos, yn enwedig ar faterion cyllidol.

Arwyddocaol yw'r ffaith i John Morris wasanaethu mewn nifer o swyddogaethau hollol wahanol, dan 10 o arweinwyr y Blaid Lafur, o Hugh Gaitskell hyd at y Jeremy Corbyn. Ac asgwrn cefn y gyfrol hon yw'r pytiau cryno a gyflwynir inni lle mae'r awdur yn croniclo ei brofiadau gyda phob un o'r gwleidyddion hyn, ac yn rhoi ei farn yn hollol onest ar nodweddion, rhinweddau a ffaeleddau pob un ohonynt yn ei dro.




Rhoddir sylw mwy manwl i gyfnodau Harold Wilson, arweinydd y Blaid Lafur rhwng 1963 a 1976, a Jim Callaghan, cyfaill mynwesol yr awdur a'r aelod a fu'n cynrychioli etholaeth De Caerdydd yn y senedd am flynyddoedd meithion ar eu hyd. Eto i gyd, mae John Morris yn hollol barod i danlinellu rhai o wendidau Callaghan yn ogystal. Un arall o arwyr yr awdur yw Barbara Castle, un a fu'n gweithio yn ei swyddfa pan roedd hi yn Weinidog Trafnidiaeth arloesol yn 1966–68.

Ond mae llawer iawn o ddarnau eraill sydd o ddiddordeb arbennig yn ogystal. Mae'r awdur yn cymryd balchder eithriadol yn hanes ei gyndeidiau a'i gefndir amaethyddol yng Nghapel Bangor ger Aberystwyth. Roedd rhai o'i berthnasau'n ei ystyried yn dipyn o 'ddafad ddu' gan iddo raddio mewn prifysgol ac yna dewis dilyn gyrfa fel cyfreithiwr yn hytrach nag amaethwr.

Difyr yw rhai o'r manylion a gyflwynir yma am rai aelodau o deulu John Morris, yn eu plith y Farwnes Symons a Jacob Rees-Mogg. Er mai Rhyddfrydwyr rhonc yn sir Aberteifi oedd y than fwyaf o deulu John Morris, penderfynodd ymuno â'r Blaid Lafur pan oedd yn fyfyriwr yn astudio'r gyfraith yn Aberystwyth. Cynyddodd ei ddiddordebau gwleidyddol wrth astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt yn ddiweddarach yn ystod cyfnod ffurfiannol dros ben, pan ddaeth i gysylltiad â nifer o fyfyrwyr Llafur a etholwyd i'r Senedd yn ddiweddarach, a rhai o'r rhain yn weinidogion y goron fel John Morris ei hun.

Cawn ddarllen gyfeiriadau at nifer o themâu gwleidyddol pwysig, yn eu plith datganoli i Gymru, Ewrop, rhyfel yr hen Iwgoslafia, rhyfel Irac (gyda Tony Blair yn cael ei feirniadu'n lled hallt yma), a'r trafodaethau presennol yngylch gadael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd datganoli yn arbennig yn bwnc llosg i'r Arglwydd Morris, a bu hynny'n waith oes iddo. Fe weithiodd i gyfrannu at greu pensaernïaeth datganoli rhwng 1953 a 1998, ac mae'n nodi bod colli'r bleidlais yn 1979 yn siom enfawr iddo, ac un a gymerodd blynyddoedd mawr i ddod drosti. Ond y mae o'r farn erbyn hyn i'r gwaith a wnaeth yr adeg honno fod yn gyfraniad pwysig i ganlyniad pleidlais 1997 a'r datblygiadau a ddigwyddodd wedi hynny.

Yn ei farn ef, y Blaid Lafur sydd yn bennaf gyfrifol am lwyddiant datganoli, ond eto mae'n awyddus i ddiolch i wleidyddion o fewn y pleidiau eraill am eu cydweithrediad parod yn y broses. Cawn gyfle yma'n ogystal i ddarllen rhai o sylwadau John Morris at ddatblygiadau gwleidyddol yn yr Alban yn ystod y ganrif hon.

Cynhwysir nifer fawr o luniau a ffotograffau sydd yn wledd arbennig i'r llygad.

**J. Graham Jones**

**Adolygiad oddi ar www.gwales.com , trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru**

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

# Ysgol Rhydypennau

**Gweithgareddau ac ymweliadau**

Daeth y cyfle unwaith eto eleni i fwynhau gweithgareddau difyr Wythnos Gwyddoniaeth ar safle'r Brifysgol. Fe aeth blwyddyn 5 a 6 ar y bws yn ystod p'nawn y 10fed o Fawrth.

Yn ystod y sesiwn profodd y plant nifer o weithgareddau diddorol iawn a hwyluswyd y dysgu gan fod y tasgau yn ymarferol ac yn weladwy iawn. Diolch yn fawr iawn i'r myfyrwyr am y gweithgareddau ac i staff y Brifysgol am hwyluso trefniadau a chwrdd â chostau'r ymweliad.

Fel rhan o'n partneriaeth â SUSTRANS Cymru, mae'r plant wedi bod yn ymgymryd â sawl gweithgaredd sy'n hybu teithiau iach a theithiau 'gwyrdd' i'r ysgol. Yn ddiweddar, fe ddaeth P.C. Goffin i gynnig hyfforddiant beicio a diogelwch ar y ffordd i blant blwyddyn 6. Yn dilyn yr hyfforddiant derbyniodd y plant dystysgrif Diogelwch ar y Ffordd am lwyddo i gwblhau'r cwrs.

**Eisteddfod yr Urdd**

Da iawn i bawb a fu'n perfformio yn yr Eisteddfod Gylch yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am lwyddo i gyrraedd y tri cyntaf.  Y Parti Unsain-1af; Y Parti Cerdd Dant-1af, Y Parti Llafaru-3ydd. Gruffydd Siôn, Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac Iau-1af. Lili Myrddin, Unawd Blwyddyn 3 a 4-1af ac Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 3 a 4-3ydd. Maddison Jones, Unawd Blwyddyn 2 ac iau-1af ac Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 2 ac iau-1af. Mari Roberts, Unawd Blwyddyn 2 ac iau-2il gyda Lilah Smith yn 3ydd. Leisi Myrddin Unawd Cerdd Dant Bl 2 ac iau – 3ydd.

**Clwb Cant**

Dyma ganlyniad fis Ebrill:-
1af. £25 Kath Evans.
2il. £15 Gemma Bell
3ydd £10 Sarah Humphreys.




























# Ysgol Penrhyn-coch

**Dathliadau Gŵyl Ddewi**
Fel rhan o'n dathliadau Gŵyl Ddewi eleni fe wnaeth Blwyddyn 1 a 2 animeiddiad o'r tir yn codi o dan draed Dewi Sant pan fu'n pregethu yn Llanddewi Brefi. Gwaith rhesymu o orymdaith Dewi Sant a wnaeth blwyddyn 3 a 4. Cymerodd blwyddyn 5 a 6 rhan mewn Skype Ddirgel sef sesiwn holi ag ateb gydag Ysgol arall yng Nghymru a defnyddio'r gwybodaeth amdanynt i ddarganfod ei lleoliad sef Ysgol Llanddarog, Sir Gaerfyrddin. Diolch i Mr. Price a disgyblion blwyddyn 5 a 6 am y sgwrs.







**Sesiwn Pêl droed**
Cafwyd y disgyblion y fraint o gael sesiwn pêl droed o dan ofal Gavin Allen, Matthew Jones a Alex Pennock. Diolch iddynt am eu hamser. Fe wnaeth pawb mwynhau'n fawr iawn.




**Diwrnod y Llyfr**
Dathlwyd Diwrnod y Llyfr gyda phawb yn gwisgo i fyny fel eu hoff gymeriad allan o lyfr a dyfalu pwy yw pwy. Hefyd, bu lwyth o weithgareddau eraill gan gynnwys helfa geirfa geiriau'r geiriadur, adolygu eu hoff lyfr, cynllunio nodlyfr a llawer mwy.

**Sport Relief**
Da iawn i'r disgyblion am wisgo coch a rhedeg milltir ar gyfer eu hymdrech i godi arian i'r elusen Sport Relief. Codwyd £62.

**Eisteddfod Cylch Aberystwyth**
Da iawn i bob unigolyn a gymerodd rhan yn yr Eisteddfod eleni yn enwedig i Gwen a llwyddodd i gael llwyfan am gyflwyno Alaw Werin – campus! Hefyd, da iawn i gôr yr Ysgol am gystadlu. Diolch i Mr. Tudur Jones am gyfeilio ag i Ms. Sara James am ei chymorth gyda'r côr. Llongyfarchiadau i ddisgyblion y Cyflwyniad Ddramatig am ddod yn gyntaf.

**Llysgenhadon Efydd**
Bu ein Llysgenhadon Efydd, Owen a Lois, ar hyfforddiant chwaraeon yn ddiweddar. Edrych ymlaen i glywed eu syniadau ar gyfer cadw'n heini!





**Ffair Wyddoniaeth**
Cafodd blwyddyn 5 a 6 gwledd o weithgareddau Gwyddoniaeth a gynhaliwyd gan Brifysgol Aberystwyth yn ddiweddar. Yr oedd amryw o stondinau o gwmpas gampfa y Brifysgol i ddiddanu'r disgyblion a staff.








**Pen blwydd arbennig**
Braf oedd cael dymuno pen blwydd hapus arbennig iawn i Miss. Hughes ar y 16eg o Fawrth. Pen blwydd hapus iawn yn 30! Cofiwch gael cip ar ein gwefan **www.penrhyncoch.ceredigion.sch.uk** am fwy o wybodaeth neu dilynwch ni ar drydar @YsgPenrhynCoch.

# Colofn Enwau Lleoedd



Mae adfeilion *Lluestygrafiau* i'w gweld yn y goedwig ar lan orllewinol afon Llechweddmor ychydig i'r de o Blas y Mynydd (*Anglers' Retreat* ar y map). Ceir llechwedd sy'n dwyn yr un elfen y tu draw i afon Llechweddmor yn sir Drefaldwyn, sef *Foel Grafiau*.




**Map 1:25000 yr Arolwg Ordnans 1955 Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban (CC BY 4.0)**

Ceir tystiolaeth o fodolaeth y lluest o'r ddeunawfed ganrif ymlaen, ac fe'i cofnodir ar un o fapiau Stad Gogerddan yn 1790 yn y ffurf *Llyast y Gravie*.

Digwydd yr elfen *grafiau* mewn nifer o enwau lleoedd mewn ardal gymharol gyfyngedig yn y Canolbarth, er bod yr union sillafiad yn amrywio:

Cyfeiria J. Henry Griffiths yn ei gyfrol *Bro Annwyl y Bryniau* (1988, t.1) at fryn y *Grafie* yn nghyffiniau Ystumtuen, ac mae mapiau chwe modfedd yr Arolwg Ordnans yn cofnodi llechwedd *Grafiau'r Llwynog* ar Gefn Croes ger Eisteddfa Gurig a chraig *Grafea Elan* ar y mynydd-dir i'r dwyrain o Gwmystwyth.

Heb fod ymhell o *Grafea Elan*, ond dros y ffin yn sir Faesyfed, nodir llecyn o'r enw *Grafia* i'r de o flaen afon Gwngu ar fapiau'r Arolwg Ordnans.

Yn sir Drefaldwyn, ceir cae o'r enw *Grafia* ar lan afon Gwy ar dir fferm Nanty ar Fap Degwm Llangurig, ac enw llafar rhan o'r rhiw serth sy'n arwain o Aberhosan i Ddylife yw'r *Grafie*.

Felly beth yw ystyr yr elfen?

Yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru* ymdrinnir â *grafiau* fel ffurf luosog y gair *graf* (er na chofnodir enghraifft o'r ffurf unigol mewn gwirionedd). Awgrymir yn betrus mai benthyciad ydyw o'r gair Saesneg *grave* yn golygu 'bedd, pwll, ffos', a chynigir 'llethr chwâl, sgri' fel ystyr bosibl ond ansicr.

Byddai'r ystyr hon yn gweddu i amryw o'r lleoliadau dan sylw uchod, ond mae'n werth tynnu sylw at ddehongliad E. James, 1 North Road, Tre'r-ddôl, o'r elfen yng nghyd-destun *Lluestygrafiau* yn nghyfrol Iwan Wmffre, *The Place-Names of Cardiganshire* (t. 1139):

'pridd mân, mân, ... warin llwynogod yma'.

Byddai esboniad o'r fath yn sicr o daro deuddeg yn achos *Grafiau'r Llwynog*, Eisteddfa Gurig, yn ogystal.

Tybed a ŵyr darllenwyr *Y Tincer* am enghreifftiau pellach o'r elfen mewn enwau lleoedd lleol a fyddai'n ategu'r ystyron 'llethr chwâl, sgri', neu 'bridd mân'?

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

# Dawn y cyfarwydd



Aeth tair blynedd heibio bellach ers i ni dderbyn gwahoddiad aelodau Gofalaeth y Garn i ddod i fyw yn eich plith ac i weinidogaethau yn y fro,

Sut beth oedd y profiad hwnnw tybed?

I ddechrau cychwyn roedd y gwahoddiad a'r holl ystyriaethau ynghylch symud i fro newydd yn gymysgwch o ofn ac arswyd!

Roeddem wedi hen gynefino â byw yn Sir Gaerfyrddin, wedi byw yn ardal Cross Hands a Thŷ Croes, Rhydaman ers 1983. Yn Nhŷ Croes y magwyd ein plant ac er eu bod wedi hedfan o'r nyth, yno roedd atgofion melysaf ein teulu.

Mae yna gysur yn y cyfarwydd yn does? Eich tŷ, eich gardd, eich deintydd a'ch meddygon, eich meddygfa a'ch llyfrgell. Roedd ein holl ymwneud yn y meysydd hyn yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd o i gyd mor Gymreig ac mor gyfforddus ac mor ddiogel, ac mor gyfarwydd.

A symud i ardal Bro'r Tincer? Roedd hynny'n arswyd. Symud i ardal anghyfarwydd heb wybod lle'r oedd cael hyd i feddyg, na deintydd, na.... Ac ar ben hynny, dyma ddechrau meddwl am y didoli, y pacio, y dadwreiddio, yr holl lyfrau oedd angen eu cludo. Bocseidiau o ohonynt i'w cludo heb sôn am y cannoedd o gyfrolau a gafodd fynd i fyd sydd well i fyw.

Ac wrth gwrs daeth ofnau eraill i'n gwawdio. Beth os na fyddem yn medru cartrefu? Beth os na fyddai'n gorau'n ddigon da i'r cynulleidfaoedd? Beth os fyddwn i'n siomi pobl, neu'n methu cwrdd â'm disgwyliadau fy hun na gobeithion pobl eraill?

Ac wrth gwrs rhaid oedd delio gyda chyngor cyfeillion Job. Oni fyddai'n well fy mod yn meddwl ymddeol na mentro ar bennod newydd heriol?

Ac yna daeth awr y symud o'r cyfarwydd i fyd gymharol gyfarwydd.

Wedi'r cyfan roedd y ddau ohonom wedi treulio blynyddoedd hapus yn y Coleg ger y lli rhwng 1976 ac 1983. Ac wrth deithio adre i'r gogledd roedd pasio drwy'r bröydd hyn ddim yn ddieithr chwaith. Ac roedd llawer o gydnabod gennym yn y fro. Ond peth gwahanol yw gwybod y ffordd drwy rywle i fyw mewn lleoliad penodol a chyfarwyddo gyda hanes a bro newydd.

Yn sydyn rhaid oedd wynebu môr o wynebau newydd ac enwau a theuluoedd. A dyna funud werthfawr oedd awr y sylweddoliad bod hwn yn bennod newydd, mentrus i'r cynulleidfaoedd hefyd. Os oedd angen ffydd arnom ni i symud, roedd angen ffydd i groesawu.

I mi, yn bersonol, roedd gen i ryw ychydig o fantais ar Lowri, fy ngwraig. Wedi'r cyfan, roeddwn wedi arwain oedfaon a phregethu yn nifer o gapeli'r ofalaeth (heblaw am Gapel Seion a Babell, Dôl-y-bont) pan oeddwn yn fyfyriwr. Ac wrth ymweld â'r capeli unwaith eto roedd gan yr anghyfarwydd rywsut flas cyfarwydd i mi. Roedd Pen-llwyn heb symud o'i safle ac roedd cofeb Lewis Edwards yn parhau i fwrw ei gysgod ar lwybrau pregethwyr i'r capel. Ac roedd "calon Cymru" capel Madog heb symud. Roeddwn yn gwybod fy ffordd yno heb fynd ar goll. A llifai atgofion yn ôl o'r sgyrsiau a gefais wrth bwyso ar y wal y tu allan i'r capel tua mis Mai 1982. A safai Capel y Garn mor urddasol - onid oeddwn wedi pregethu yno mewn Sasiwn Ordeinio rhai mynyddoedd yn ôl? A safai Nasareth, Tal-y-bont a Rehoboth heb symud o'i lle. A llifai atgofion yn ôl am groeso i fyfyriwr ac am sgyrsiau diddorol.

Aeth bron i ddeugain mlynedd heibio ers hynny.


Bellach cawsom gyfle i ddychwelyd o'r cyfarwydd, i'r cyfarwydd anghyfarwydd. Ac os Duw a'i myn edrychwn ymlaen am gael darganfod bod yr anghyfarwydd cyfarwydd yn dod yn gynefin cyfarwydd.

Ac er yr ofnau ar y cychwyn mae ein diolch heddiw am y croeso a estynnwyd i ni wrth gyrraedd yn fawr iawn. Nid oes ofn bellach. Dim ond diolch i holl aelodau a ffrindiau Capel Seion, Pen-llwyn, Madog, y Garn, Nasareth a Rehoboth.

**Y Parchg Ddr Watcyn James**


Tylino Thai Trefechan
(Thai Massage)
Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster
Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru


# Ysgol Pen-llwyn

**Llysgenhadon Efydd**

Mynychodd ein Llysgenhadon Efydd, Efanna ac Amelia gwrs yn Aberystwyth. Treulion nhw ddiwrnod cyfan gyda Llysgenhadon o Ysgolion eraill y Cylch yn ogystal â staff y Sir. Dyma adroddiad difyr gan Efanna am y diwrnod:

Roeddwn i wedi mynd i Ysgol Plascrug am ddiwrnod gyda'r Llysgenhadon Efydd. Roedden ni wedi siarad am y sesiynau yn yr Ysgol a thrafod faint o blant sydd wedi dod. Dysgom ni fod rhaid bod yn garedig gyda'r plant, a sut i wneud y timoedd yn deg. Er enghraifft trefnu'r plant o'r talaf i'r byrraf a gwneud 1, 2, 1, 2 ar hyd y rhes, ond peidiwch â byth cael y plant i ddewis timoedd oherwydd mae'n gallu gwneud pobol yn drist. Hefyd, cafon ni chwiban defnyddio yn ein sesiynau ni, a llawer o syniadau am gêmau newydd i chwarae.

**SUSTRANS**

Daeth Sioned (Swyddog Ysgolion) a Helen o'r cwmni i gynnal cyflwyniad ar syniadau ar deithiau iach. Roedd y plant wedi dangos diddordeb a chael cyfle i rannu syniadau ar ba wahaniaeth mae pob un ohonom yn gallu wneud. Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 weithdy ar sut i gynnal a thrwsio beiciau. Roedd hyn yn brofiad gwerth chweil iddynt.

**Eisteddfod Cylch Aberystwyth**

Aeth grŵp o blant i Ganolfan y Celfyddydau i gystadlu yn yr Ymgom. Perfformiodd y plant sgript am blant mewn clwb celf gyda'r teitl 'Bancsi Bach'. Cawsom hwyl yn ymarfer yn yr ysgol a pherfformio o flaen y gynulleidfa.

Da iawn hefyd i'r plant aeth i'r rhagbrofion yn yr ysgolion i berfformio'n unigol. Rydym yn falch iawn ohonoch chi i gyd.

**Dannedd**

Fel rhan o 'Cynllun Gwên' mae'r plant yn brwsio dannedd ar ôl cinio pob dydd. Yn ogystal a hyn daeth y Deintydd i roi fflworid ar ddannedd y plant. Byddant yn cynnig hyn i blant y Cyfnod Sylfaen pob chwe mis.

**Saib a Symud**

Daeth Siân Mihangell Dafydd i gymryd sesiynau ioga gyda phob dosbarth. Ar ddiwedd y dydd, roedd hyfforddiant i'r staff a chyfle i gyfarwyddo gyda'r holl adnoddau. Mae'r rhaglen yn arbennig o dda a'r plant wir wedi cymryd ati yn syth bin.

'Sports Relief'

Roedd mwyafrif y plant wedi gwisgo dillad coch i gefnogi 'Sports Relief'. Yn y bore, aeth pawb ati i redeg milltir. Diolch i'r Llysgenhadon am fesur yr iard i wneud yn siŵr bod pawb wedi rhedeg milltir. Ymdrech arbennig o dda blantos!

**Ffair Wyddoniaeth**

Aeth blwyddyn 5 a 6 i Brifysgol Aberystwyth ar gyfer y Ffair Wyddoniaeth. Cawsom brofiadau arbennig wrth ymweld â'r holl stondinau. Rydym yn ffodus iawn o gael ein Prifysgol leol i rannu arbenigedd a phrofiadau yn flynyddol. Cafodd y plantos brynhawn arbennig o dda.

**Dysgu o gartref**

Yn sydyn iawn, newidiodd ein ffordd o addysgu a dysgu. Mae wedi bod yn braf iawn i drafod a rhannu gwaith gyda'r plant trwy gyfrifon Hwb y plant.

Mae llawer iawn o gwmnïoedd lleol, yn genedlaethol ac ar draws y byd yn rhannu syniadau, heriau a gweithdai ar-lein. Rydym yn rhannu ein hoff rai ar Twitter, dilynwch yr Ysgol ar @ysgolpenllwyn i weld yr holl syniadau sydd wedi'n diddori ni.

Mae'r athrawon hefyd yn gosod gwersi, gwasanaethau a heriau yn Dimoedd MS. Mae'n braf gweld y plant yn barod i weithio yn gynnar pob bore, yn ymateb i adborth a rhannu gweithgareddau eraill maent yn wneud i ysgogi eraill. Mae rhaid canmol Phoebe am gyflawni holl heriau Mr Shepherd yn gyntaf a Charlie am ysgrifennu cerdd gampus am Coronafeirws sydd i weld ar Facebook a Twitter yr Ysgol.











# Tasg y Tincer

Diolch i chi i gyd am eich gwaith hyfryd mis diwethaf: Lleucu Elen ap Llywelyn, Capel Madog; Anest Erwan, Bow Street; Osian Rhys Jones, Caerffili.

Dy enw di, Anest, ddaeth o'r het y tro hwn. Hwrê! Diolch i ti hefyd am dy lun o'r cogydd a'r crempog – ardderchog!



Anest

Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

Mae'n gyfnod digon od a gwahanol i bawb, ond mae **mor** braf gweld arwyddion o'r gwanwyn o'n cwmpas. Ac er nad y'ch chi yn yr ysgol ar hyn o bryd, mae digon i'w wneud: Chwarae gêmau yn yr ardd, helpu Mam a Dad yn y tŷ, siarad â ffrindiau dros y ffôn, Skype neu Zoom, darllen, gwylio eich hoff ffilm, sgwennu stori, coginio, mynd ar helfa natur, adeiladu tŷ i drychfilod yr ardd, lliwio, dysgu crefft newydd ... dwi'n bwriadu dysgu gwau!! Ac wrth gwrs mae'r Pasg wedi cyrraedd – cyfle i fwyta wyau siocled! Mae'r wy yn arwydd o fywyd newydd ac o obaith, ac mae honno'n neges bwysig iawn. Bydd rhai ohonon ni'n cael cwningen siocled. Ond beth yw'r cysylltiad rhwng cwningod a'r Pasg? Un o ffrindiau gorau Eostre – duwies y gwanwyn – ganrifoedd maith yn ôl oedd sgwarnog, ac mae'n bosib mai dyna yw'r cysylltiad. Roedd gan y Santes Melangell sgwarnog yn ffrind iddi. Ydech chi wedi clywed yr hanes? Achubodd Melangell y sgwarnog rhag cŵn hela Brochwel, tywysog Powys. Mae hi wedi'i chladdu yn eglwys Pennant Melangell ger Llangynog.

Y mis hwn, rhowch gynnig ar ddatrys y pos! Mae'r geiriau wedi eu cymysgu i gyd. Fedrwch chi ddyfalu beth ydyn nhw, tybed? Un cliw – mae pob un ohonyn nhw yn y darn ry'ch chi newydd ei ddarllen ...

IDCELOS
WGAORNGS
WNYAGWN
LELAMNEGL
SPWGAY (2 gair!)
NENCINWG

Mae croeso i chi anfon eich atebion ata i drwy ebost (anwenmai@hotmail.co.uk) neu eu postio at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Calan Mai (1 Mai). Ta ta tan toc, a Pasg hapus!

CYMRAEG Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

## Adolygiad

Medi Jones Jackson
*Genod Gwyllt a Merched Medrus*. Y Lolfa 48t.
£5.99




Casgliad o 12 o ferched o Gymru sydd yma, gan gynnwys Betsi Cadwaladr, Laura Ashley a Jade Jones, ac mae'r awdur wedi mynd ati i wneud yn siŵr bod rhywbeth yma at ddant pawb, boed hynny'n fathemateg, chwaraeon, ysgrifennu neu hyd yn oed astroffiseg! Ar dudalen ddwbl cawn hanes pob unigolyn, yn ogystal â dyfyniadau, ffeithiau ac ystadegau hwyliog. Mae'r straeon ysgafn yn cyflwyno sut wnaeth pob un ohonynt lwyddo i gyrraedd y brig, ac mae'r wybodaeth wedi ei chyflwyno mewn ffordd apelgar tu hwnt, gyda nifer o ffeithiau hurt bost sy'n mynd i aros yng nghof y darllenydd.

Ar ddiwedd y llyfr, mae nifer o dasgau i annog y darllenwyr i ddatrys posau, bod yn greadigol a gosod heriau i'w hunain er mwyn iddyn nhw wireddu eu breuddwydion hefyd. Mae dwy dudalen yn arbennig i nodi sut rwyt ti am newid y byd yn y dyfodol – ffordd hyfryd i drafod amcanion a gobeithion gyda darllenwyr ifanc.

Rhaid canmol y darlunydd Telor Gwyn am y lluniau sy'n dod â'r hanesion yn fyw, a'r dylunydd Dyfan Williams am y dyluniad bywiog a lliwgar. Mae pob tudalen yn llawn bywyd ac yn sicr o dynnu sylw, ac mae'r clawr trawiadol yn rhoi awgrym o'r amrywiaeth a'r cyffro rhwng y cloriau.

Mae'r tudalennau blaen a chefn yn cynnwys llu o enwau merched ifanc Cymru – y genhedlaeth newydd o genod gwych a merched medrus – ac rwy'n edrych ymlaen yn barod i ddarllen eu hanesion nhw'n fuan, gan obeithio y bydd y llyfr hwn yn tanio a'u hysbrydoli.

Mae'r gyfrol yn anrheg berffaith i blentyn ifanc, ac mae'n siŵr o fod yn ffefryn fydd yn cael ei dynnu o'r silff yn gyson yma lyfr fydd at ddant pob merch fach gyda breuddwydion mawr.

**Llio Maddocks**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

Cyfrol gan awdur o Bow Street wedi ei darlunio gan Telor Gwyn – bydd disgyblion Ysgol Rhydypennau yn adnabod ei fam – Mrs Eleri Roberts – sydd â chysylltiad teuluol yng Ngoginan.

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
*Rhif 428 | Ebrill 2020*